



Adolygiad Llyfr: Adrodd ar Dlodi: Naratif y Cyfryngau Newyddion a Chyfathrebiadau'r Trydydd Sector yng Nghymru [Reporting on Poverty: News Media Narratives and Third Sector Communications in Wales]

Johanna Karlsson

Prifysgol Aberystwyth, DU | jok29@aber.ac.uk

LLYFR WEDI'I ADOLYGU

Moore, K. 2020. *Adrodd ar Dlodi: Naratif y Cyfryngau Newyddion a Chyfathrebu'r Trydydd Sector yng Nghymru* [Reporting on Poverty: News Media Narratives and Third Sector Communications in Wales]. Cardiff: Cardiff University Press

GEIRIAU ALLWEDDOL

newyddiaduraeth, newyddiaduraeth darlledu, cyfryngau, y wasg, tlodi, Cymru

DYFYNIAD

Karlsson, J. 2021. Adolygiad Llyfr: Adrodd ar Dlodi: Naratif y Cyfryngau Newyddion a Chyfathrebiadau'r Trydydd Sector yng Nghymru [Reporting on Poverty: News Media Narratives and Third Sector Communications in Wales]. *JOMEC Journal* 16, pp. 130-133. DOI: <https://doi.org/10.18573/jomec.217>

DERBYN I'W GYHOEDDI 15 Mai 2021

Pwy sy'n dlawd yng Nghymru heddiw a sut cynrychiolir tlodi yn y cyfryngau? Sut ffilmio gyda pharch person llwglyd sy'n bwyta? Sut cadw'r pellhad a ofynnwyd a dweud y stori ar yr yn bryd? Ddylai'r cyfryngau ddangos o bob ochr rywun sy'n cysgu yn y stryd – gydag efallai chyffuriau a thrais – a risgio ailgynhyrchu darlun o bobl y stryd fel unigolyn diog a heb gyfle i wella eu sefyllfa? Pam ymddiried mewn newyddiadurwyr? (Ofn a balchder yw dau reswm i'w hosgoi.) Gan ymchwilio straeon newydd ar dlodi yn y cyfryngau print, ar-lein a darlledu Cymreig, yn ystod cyfnod rhwng 4 Ebrill a 15 Gorffennaf yn 2016, mae Kerry Moore, Uwch Ddarlithydd yn Ysgol Newyddiaduraeth, Cyfryngau a Diwylliant ym Mhrifysgol Caerdydd, yn cyflwyno gwaith pwysig a diddorol iawn ond heb gynnig atebion i'r cwestiynau sy'n codi. Mae'r gyfrol yn cynnwys tair prif ran, sef casgliad data, profiadau staff newyddiadurol a phrofiadau staff neu wirfoddolwyr y trydydd sector.

Mae 23% o bobol yng Nghymru yn byw mewn tlodi i'w gymharu at 21% yng nghyfan y DU. A welir pa storiâu o dlodi ddigon teilwng i'w dweud yn y cyfryngau? Sut cyflwyno a, mewn

ffordd, llwyfannu tlodi i'r cynulleidfaoedd? Mae un cyfarwyddwr sefydliad yn y trydydd sector yn siarad am 'porn tlodi' (Moore 2020, t. 112). Mae pobl dlawd yn y DU y dibynnu ar gymorth mympwyol. Felly, er bod rwyf ti'n efallai cysgu ar y stryd neu ar gyffuriau, mae angen bod yn ddigon cwrtais i'r gymuned o dy gwmpas di i'w cadw nhw'n ddigon hapus dal i roi arian at elusennau neu syth atat ti. Yn aml, mae'r staff y trydydd sector yn weithwyr prosiect ac mae'n bwysig cynllunio'r gweithgareddau yn ôl fe elwir 'cylich newyddion y cyfryngau' – sef, mae'n angenrheidiol cyfathrebu'r straeon pwysicaf y sefydliadau yn ystod o adegau tawel fel mis Awst. Yn amlwg, mae diffyg o siarad am dlodi yn y sgwrs gyhoeddus. Ar yr un bryd, mae'r astudiaeth yn dangos bod yr economi yw'r brif thema newyddion dros y cyfnod astudiwyd (Moore 2020, t. 30). Diweithdra a swyddi yw dau fater eraill sy'n agos iawn at dlodi a chyflwynir yn aml gyda'n gilydd. Dyna yn amlwg oherwydd taw diweithdra a swyddi'n, efallai, mwy niwtral a llai cywilyddus.

Er bod y golygyddion Cymreig yn amlwg yn cytuno bod tlodi yn rhywbeth sylweddol iawn yng Nghymru – mwy nag yn Lloegr (Moore 2020, t. 67) – dywedir gwylwyr yn tueddu at ymddangos teimlad o ddiffyg o ddiddordeb ynddi. Mae storïau newyddion banciau bwyd, er enghraifft, yn colli diddordeb y gwylwyr ar ôl cyflwynir newyddion ar yr un themâu am y pedwerydd tro (Moore 2020, t. 66). Angenrheidiol i bawb sydd eisïau llwyddo i gael y neges ar draws i'w feddwl amdani. Gwaith ar y cyd a chyd-ddealltwriaeth rhwng y cyfryngau a'r trydydd sector ydy'r naratif ar dlodi, yn ôl y llyfr. (Moore 2020, t. 2) Diddorol iawn yw'r wybodaeth am ddiffyg adnabyddiaeth tlodi'r bobol y Deyrnas Unedig, oherwydd nid ydy'r gwaith ar y cyd wedi bod yn hollol lwyddiannus ar blaen. Fel arfer dydy'r Prydeiniwr ddim yn awgrymu bod y mwyafrif o'r tlawd mewn oed gweithio ond yn hytrach wedi ymddeol a, mwy nag unrhyw boblogaeth arall yn yr Undeb Ewropeaidd, yn credu taw mewnfudo yw'r prif reswm tlodi heddiw (Moore 2020, t. 6).

Gan ddarllen llyfr uchelgeisiol Moore (2020), rwyf fethu ildio meddyliau am dlodi fel rhywbeth sydd yn bodoli yn yr un ffordd ledled y Deyrnas Unedig; beth sy'n wahanol yng Nghymru yw'r cyfryngau. The Sun ydy'r papur newydd mwyaf boblogaidd yng Nghymru (Moore 2020, t. 98). Sef, mae gan y cyfrwng print mwyaf yng Nghymru ddiffyg bersbectif lleol yn ogystal â diffyg persbectif lleol datrysiadau'r problemau. Yn debyg, mae eisïau enfawr disgwrs lleol ynglŷn â thlodi yng Nghymru a risg o "stigma tabloid", fel y gelwir gan Moore (2020, t. 81), sef newyddion yn aml anghywir a chyhuddol am dlodi ac sy'n ergyd ar dlawd.

Dyna pam mae hi'n bwysig iawn i greu platfformau academaidd ar gyfer yr un materion a chynnig trafodaethau dyfnach arnyn nhw. Nid oes ofn ar Moore (2020) am ofyn cwestiwn fel ydy'r iaith Gymraeg yn gysgod dros faterion eraill yng Nghymru? Hynod ddeallus i'w trafod yma ac yn dangos darlun mwyaf. Yn anffodus, er bod barn ddiddorol iawn, dydy hi ddim yn

cael ddigon o le i'w thrafod. Er enghraifft, mae'n a olygydd newyddion print (Moore 2020, t. 68) sydd yn siarad am y mater ieithyddol yng Nghymru fel rhywbeth sy'n cysgodi'r boblogaeth ddifreintiedig Gymreig. Eto, dyna bwynt pwysig iawn, yn amlwg, ond beth sy'n dweud bod tlodi yn ergyd dim ond at yr Eingl-gymreig? Hoffwn i yma ryw fath o gymhariaeth o gyd-destun iaith leiafrifol arall am sut gallu jyglo materion yr iaith a chwestiynau cyfiawnder cymdeithasol. Efallai tasai gymhariaeth â'r Alban yn ddefnyddiol yma dros y mater Gymraeg? Mae'r Alban a'r SNP yn glir ynglŷn â dyfodol annibynnol yr Alban: yn hanfodol i'r syniad o annibyniaeth yw symud at adeiladu gwladwriaeth les go iawn. Nid yw'r Aeleg yr Alban ar y lefelau o ddwyieithrwydd â'r Gymraeg, ond nid ydy hynny wedi datrys i'r problemau tlodi'r Albanwyr. Ond mae ffordd arall i'w gweld: fe welir poblogaeth Cymraeg i gyd fel dosbarth canol, yn ôl un gohebydd yn yr adroddiad. Yn anffodus, dydy'r awdures ddim yn trafod y sylw yn bellach gan ofyn beth yw'r risgiau cymdeithasol i unigolyn o gymdeithas leiafrifol (fel yr un Gymraeg). Yn ôl rheolwr gwybodaeth a mewnweliad, "cryfder a gwendid" yn yr un pryd yw'r agosatrydd yng Nghymru (Moore 2020, t. 98). Yn amlwg, mae rhai o bartion ym Mae Caerdydd sydd eisiau adeiladu gwladwriaeth lles yng Nghymru, bell i ffordd o San Steffan. Serch hynny, nodir gan yr awdur y diffyg pwerau'r Llywodraeth Cymru. Mae angen am raglen gyfan i weithio yn eang yn erbyn yr effeithiau'r tlodi ac yn cynnwys ffactorau fel gwasanaethau iechyd a thai fforddiadwy (ffaith ddiddorol: y cyfryngau print yn trafod digartrefedd mwy nag y cyfryngau darlledu).

Hynod ddiddorol yw darllen persbectifau mwy o olygyddion cyfryngau Cymreig. Fe gyflwynir y cyfryngau Cymreig fel sector heb ddigon o adnoddau; yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Does dim gohebydd lleol yn y cymoedd; does neb yng nghanolbarth Cymru chwaith. Yn bellach i wneud cyfweiliadau â phobl y dyddiau hynny mae ffôn clyfar ambell waith yn angenrheidiol, sef dydy hi ddim bob amser yn bosib ffeindio rhywun parod i siarad am ei bywyd tlawd ar y teledu gan ddyfais ddrud. Mae'n eironig ond yn amlwg taw prin adnoddau'r swyddfeydd golygyddol yn achosi problemau yn y ffordd sut cyflwynir tlodi yn y cyfryngau Cymreig – mae diffyg o arian yn ogystal ag amser ar gyfer creu gwaith newyddiadurol dwfn a chyson. Dydy'r cyfryngau cymdeithasol ddim yn helpu – fel arfer os torrwyd stori mae eisiau am fwy o storïau newydd yn hytrach na dadansoddiad dyfnach.

Dyma lyfr bron i hanfodol i bawb sy'n astudio'r cyfryngau yng Nghymru neu yn cysylltu â nhw mewn unrhyw ffordd arall. Gobeithio darllenir y llyfr hwn gan fyfyrwyr newyddiaduraeth gyfoes – mae llawer o straeon pwysig ynddo – a gobeithio na chaiff e'n sbarduno trafod mewn seminarau academaidd am sut portreadu pobl mewn sefyllfeydd difreintiedig. Er hynny, hoffwn wedi darllen mwy am beth mae'r newyddiadurwyr yn meddwl ar y pwnc. Beth yw eu barn am sut mae'r gwleidyddwyr yn gweithio â thlodi? Ydyn nhw'n cytuno â'r gyfundrefn yn gyffredin, neu pe bydden nhw eisiau ei chwalu a sut ydy hynny'n effeithio'r

gwaith a phroses newyddiaduraeth? Allan nhw gadw'n niwtral?

Beth a hoffwn i'w gweld yw trafod go iawn ynglŷn ar gyfundrefn o elusennau ym Mhrydain. Pam methu rhoi pwys ar y llywodraeth i wneud beth sydd mai'n yna i'w wneud – sef, cynnig y posibiladau gorau i bawb yn hytrach na thafu'r dasg i ffordd at gymdeithasau sydd fel arfer yn neud gwaith anhygoel ond sydd dan lai o dryloywder na gweinidogaethau, awdurdodau ac asiantaethau llywodraethol. All y cyfryngau cael effaith ar y gwleidyddwyr i newid pethau ac, os ie, ym mha ffordd? Yn bellach, hoffwn i wedi gweld trafodaeth neu o leiaf manylion ynglŷn â gwahaniaethau daeryddol. Ydy bod yn dlawd yr un peth yng Ngwynedd, ym Mhowys ac yng Nghaerdydd? Ydy'r gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau'n dangos yn y cyfryngau? Prif faterion cysylltiedig â thlodi yn y cyfryngau yw diweithdra ac ansicrwydd gwaith (Moore 2020, t. 119). Wrth gwrs, wedi blwyddyn o bandemig mae'r sefyllfa wedi newid. Mae yna fwy o bobl mewn tlodi achos y coronafeirws, ond dim mwy o amser i greu newyddiaduraeth amdanynt.

AM YR AWDUR

Mae Johanna Karlsson yn fyfyrwraig yn yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ei diddordebau ymchwil yn cynnwys y gynrychiolaeth a'r ymgorfforiad y genedl, y Gemau Olympaidd ac ieithoedd lleiafrifol; sef ffactorau pwysig yn ei thraethawd hir *Negotiating Space: An Investigation into the Subject within Postcolonial Polity*.

CYFEIRIADAU

Moore, K. 2020. *Adrodd ar Dlodi: Naratif y Cyfryngau Newyddion a Chyfathrebu'r Trydydd Sector yng Nghymru* [Reporting on Poverty: News Media Narratives and Third Sector Communications in Wales]. Cardiff: Cardiff University Press. DOI: <https://doi.org/10.18573/book5>



Cardiff University Press
Gwasg Prifysgol Caerdydd